
HM Government
Llywodraeth EM

# Proffiliau Llwyddiant

## Technegol



# Beth yw Proffiliau Llwyddiant?

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn cael ei gyflwyno i ddenu a chadw pobl sydd â thalent a phrofiad o sectorau amrywiol ac o bob ran o fywyd, yn unol ag ymrwymiad Cynllun Gweithlu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Fframwaith Proffil Llwyddiant yn symud recriwtio i ffwrdd o ddefnyddio system asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn unig. Mae'n cyflwyno fframwaith fwy hyblyg sy'n asesu ymgeiswyr yn erbyn amrywiaeth o elfennau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau dethol. Bydd hwn yn rhoi'r cyfle gorau i ddod o hyd i'r person gorau ar gyfer y swydd, cynyddu perfformiad a gwella amrywiaeth a chynhwysiad

Yr elfennau y gellir eu hasesu i ddod o hyd i'r ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl yw:

- **Ymddygiadau** - y gweithredoedd a gweithgareddau y mae pobl yn eu gwneud sy'n arwain at berfformiad effeithiol mewn swydd.
- **Cryfderau** - y pethau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd, yn eu gwneud yn dda ac sy'n ein hysgogi.
- **Gallu** - y dawn neu'r potensial i berfformio i'r safon gofynnol.
- **Profiad** - y wybodaeth neu'r feistrolaeth o weithgaredd neu bwnc ag enillir trwy ymglymiad neu amlygiad iddo.
- **Technegol** - yr arddangosiad o sgiliau, gwybodaeth neu gymwysterau proffesiynol.

Nid yw pob elfen yn berthnasol i bob rôl, felly dylai cynnwys y Proffil Llwyddiant fod yn wahanol ar gyfer gwahanol mathau o swyddi er mwyn gwella'r cyfle o gael y person gorau ar gyfer y rôl.

## Technegol

Technegol yw'r arddangosiad o sgiliau, gwybodaeth neu gymwysterau proffesiynol penodol.

Mae mwy nag 20 proffesiwn yn y Gwasanaeth Sifil gydag ystod eang o rolau ar gael, rhai ohonynt yn arbenigol. Bydd pob Pennaeth Proffesiwn yn diffinio'r sgiliau, y wybodaeth neu'r cymwysterau penodol sy'n ofynnol ar gyfer y rolau hyn.

# Pam rydym yn asesu sgiliau technegol

Mae'r rolau o fewn y proffesiynau weithiau'n arbenigol ac efallai y gofynnir i chi ddangos bod gennych y sgiliau, gwybodaeth neu'r cymwysterau penodol i fod yn llwyddiannus.

Un enghraifft o swydd arbenigol yw swydd yn Cyllid y Llywodraeth, gall hyn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gael cymwysterau cyfrifyddiaeth a gwybodaeth am y modd y rheolir Cyllid o fewn y Llywodraeth.

# Sut rydym yn asesu sgiliau technegol

Mae gan nifer o'r proffesiynau fframwaith proffesiynol a gynlluniwyd i asesu'r sgiliau, y cymwysterau a'r wybodaeth benodol sydd eu hangen ar gyfer rolau yn y proffesiwn hwnnw. Os yw'r rôl yr ydych yn ymgeisio amdani o fewn proffesiwn, caiff gwybodaeth ychwanegol am y gofynion technegol ar gyfer y rôl honno ei chynnwys yn y disgrifiad swydd.

Mae rhai o'r dulliau asesu a all gael eu defnyddio i asesu eich sgiliau technegol yn cynnwys:

- Ffurflen Gais
- CV
- Cyfweliad
- Cyflwyniadau ac ymarferion technegol
- Prawf(Priofion) technegol
- Cyflwyniad
- Sampl(au) gwaith
- Ymarfer "in-tray"
- Efelychiad sy'n gysylltiedig â swydd
- Ymarfer briffio ar lafar
- Dadansoddiad/ymarfer ysgrifenedig
- Canolfan asesu.

Os oes gofyniad am gymhwyster penodol neu aelodaeth o gorff proffesiynol, efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cymhwyster(au) neu'ch aelodaeth.

Gall eich sgiliau technegol/proffesiynol gael eu hasesu ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r Proffil Llwyddiant i gael darlun mwy cyflawn o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y disgrifiad swydd yn amlinellu'r elfennau sy'n ofynnol ar gyfer y rôl a'r dull(iau) dethol a ddefnyddir.

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn gweithlu amrywiol a chynhwysol ac rydym am eich helpu i ddangos eich potensial llawn waeth beth yw'r math o asesiad sy'n cael ei ddefnyddio. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i'n broses recriwtio, rhowch wybod i'r rheolwr recriwtio. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys darparu dogfennau mewn print bras neu braille, yn caniatáu mwy o amser ar gyfer prawf neu gyfweliad neu ddarparu cymorth mewn canolfan asesu.